OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1082 (Cy. 257)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2021

*Gwnaed - - - - 22 Medi 2021*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(**1**), yn unol ag adran 36(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Awst 2019 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(a) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i'r argymhellion hynny gydag addasiadau.

Yn unol ag adran 37(3) o Ddeddf 2013, mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pwerau a roddir gan adran 37(1) o Ddeddf 2013.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2021.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(**3**).

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ("Deddf 1972") ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Mae Deddf 2013 yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2).

(**2**) 2013 dccc 4.

(**3**) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**4**);

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Sir Caerfyrddin;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 2 fap a farciwyd "Map ar gyfer Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2021" a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau ac a labelwyd "1" a "2", ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

os dangosir ar fap bod ffin yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag a roddir iddynt yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

### Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin

**3.**—(1) Mae wardiau etholiadol Sir Gaerfyrddin, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

(2) Mae Sir Gaerfyrddin wedi ei rhannu'n 51 o wardiau etholiadol a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**5**).

### Tref Llanelli: diddymu a chreu wardiau cymunedol

**4.** Mae wardiau cymunedol Elli a Thyisha yn nhref Llanelli, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

**5.** Mae'r cymunedau a ganlyn yn nhref Llanelli wedi eu ffurfio—

(a) ward Elli a ddangosir â llinellau ar Fap 1;

(b) ward Tyisha a ddangosir â llinellau ar Fap 2.

### Tref Llanelli: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**6.** Yn nhref Llanelli—

(a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Elli yw 2;

(b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Tyisha yw 4.

(**4**) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

(**5**) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

22 Medi 2021

YR ATODLEN

Erthygl 3

ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER AELODAU'R CYNGOR

**Tabl**

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Abergwili | Abergwili | Cymunedau Abergwili a Llanllawddog | 1 |
| Ammanford | Rhydaman | Cymuned Rhydaman | 2 |
| Betws | Y Betws | Cymuned y Betws | 1 |
| Bigyn | Bigyn | Ward Bigyn o dref Llanelli | 3 |
| Burry Port | Porth Tywyn | Ward Porth Tywyn o dref Pen-bre a Phorth Tywyn | 2 |
| Bynea | Bynea | Ward Bynea o gymuned Llanelli Wledig | 2 |
| Carmarthen Town North and South | Gogledd a De Tref Caerfyrddin | Wardiau'r Gogledd a'r De o gymuned Caerfyrddin | 3 |
| Carmarthen Town West | Gorllewin Tref Caerfyrddin | Ward y Gorllewin o gymuned Caerfyrddin | 2 |
| Cenarth and Llangeler | Cenarth a Llangeler | Cymunedau Cenarth, Castellnewydd Emlyn a Llangeler | 2 |
| Cilycwm | Cil-y-cwm | Cymunedau Cil-y-cwm, Cynwyl Gaeo, Llansadwrn, Llanwrda a Llan-y-crwys | 1 |
| Quarter Bach | Cwarter Bach | Cymuned Cwarter Bach | 1 |
| Cynwyl Elfed | Cynwyl Elfed | Cymunedau Bronwydd, Cynwyl Elfed a Llanpumsaint | 1 |
| Dafen and Felinfoel | Dafen a Felin-foel | Wardiau Dafen a Felin-foel o gymuned Llanelli Wledig | 2 |
| Elli | Elli | Ward Elli o dref Llanelli | 1 |
| Garnant | Y Garnant | Wardiau Pistyll-llwyd a Thwyn o gymuned Cwmaman | 1 |
| Glanamman | Glanaman | Wardiau Grenig a Thir-coed o gymuned Cwmaman | 1 |
| Glanymor | Glan-y-môr | Ward Glan-y-môr o dref Llanelli | 2 |
| Glyn | Glyn | Ward Glyn o gymuned Llanelli Wledig | 1 |
| Gorslas | Gors-las | Cymuned Gors-las | 2 |

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Hendy | Hendy | Ward Hendy o dref Llanedi | 1 |
| Hengoed | Hengoed | Ward Hengoed o gymuned Llanelli Wledig | 2 |
| Kidwelly and St Ishmael | Cydweli a Llanismel | Tref Cydweli a chymuned Llanismel | 2 |
| Laugharne Township | Lacharn | Cymunedau Eglwys Gymin, Lacharn, Llanddowror a Phentywyn | 1 |
| Llanboidy | Llanboidy | Cymunedau Cilymaenllwyd, Llanboidy a Llangynin | 1 |
| Llanddarog | Llanddarog | Cymunedau Llanarthne a Llanddarog | 1 |
| Llandeilo | Llandeilo | Cymunedau Dyffryn Cennen a Llandeilo | 1 |
| Llandovery | Llanymddyfri | Cymunedau Llanymddyfri a Llanfair-ar-y-bryn | 1 |
| Llandybie | Llandybïe | Wardiau Heol-ddu a Llandybïe o gymuned Llandybïe | 2 |
| Llanegwad | Llanegwad | Cymunedau Llanegwad, Llanfihangel Rhos-y-corn a Llanfynydd | 1 |
| Llanfihangel Aberbythych | Llanfihangel Aberbythych | Cymunedau Llanfihangel Aberbythych a Llangathen | 1 |
| Llanfihangel-ar-Arth | Llanfihangel-ar-arth | Cymunedau Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni | 1 |
| Llangadog | Llangadog | Cymunedau Llanddeusant, Llangadog a Myddfai | 1 |
| Llangennech | Llangennech | Cymuned Llangennech | 2 |
| Llangunnor | Llangynnwr | Cymuned Llangynnwr | 1 |
| Llangyndeyrn | Llangyndeyrn | Cymunedau Llandyfaelog a Llangyndeyrn | 2 |
| Llannon | Llan-non | Cymuned Llan-non | 2 |
| Llanybydder | Llanybydder | Cymunedau Llanybydder a Phencarreg | 1 |
| Lliedi | Lliedi | Ward Lliedi o dref Llanelli | 2 |
| Llwynhendy | Llwynhendy | Ward Pemberton o gymuned Llanelli Wledig | 2 |

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Manordeilo and Salem | Maenordeilo a Salem | Cymunedau Llansawel, Maenordeilo a Salem, a Thalyllychau | 1 |
| Pembrey | Pen-bre | Ward Pen-bre o dref Pen-bre a Phorth Tywyn | 2 |
| Penygroes | Pen-y-groes | Ward Pen-y-groes o gymuned Llandybïe | 1 |
| Pontyberem | Pontyberem | Cymuned Pontyberem | 1 |
| Saron | Saron | Ward Saron o gymuned Llandybïe | 2 |
| St Clears and Llansteffan | Sanclêr a Llansteffan | Cymunedau Llan-gain, Llangynog, Llansteffan a Sanclêr | 2 |
| Swiss Valley | Swiss Valley | Ward Swiss Valley o gymuned Llanelli Wledig | 1 |
| Trelech | Tre-lech | Cymunedau Aber-nant, Llanwinio, Meidrim, Llannewydd a Merthyr, a Thre-lech a'r Betws | 1 |
| Trimsaran | Trimsaran | Cymuned Trimsaran | 1 |
| Tycroes | Tŷ-croes | Wardiau Llanedi a Thŷ-croes o gymuned Llanedi | 1 |
| Tyisha | Tyisha | Ward Tyisha o dref Llanelli | 2 |
| Whitland | Hendy-gwyn ar Daf | Cymuned Henllanfallteg a thref Hendy-gwyn ar Daf | 1 |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Awst 2019 ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol Sir Gaerfyrddin. Roedd Adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y wardiau etholiadol o 58 i 51, ond cynyddu nifer y cynghorwyr o 74 i 75.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, gydag addasiadau.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn cyflwyno'r Atodlen sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gweithredu argymhellion ynghylch newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer tref Llanelli yn Sir Gaerfyrddin.

Mae erthygl 4 yn diddymu wardiau cymunedol Elli a Thyisha yn nhref Llanelli ac mae erthygl 5 yn creu wardiau cymunedol newydd Elli a Thyisha. Mae erthygl 6 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros y wardiau newydd eu ffurfio yn nhref Llanelli.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd 1 a 2 y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol) a chyda Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Sir Caerfyrddin yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.